**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1294
Ein cyf/Our ref EM/02910/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

14 Hydref 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Awst ynglŷn â deiseb (P-06-1294) ar gyfer gwella gofal canser metastatig y fron.

Rwyf wedi ymrwymo i wella canlyniadau a gofal canser yng Nghymru. Disgrifir ein dull gweithredu yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser, sy'n cynnwys y disgwyliad y bydd y gweithlu canser yn cael ei gynllunio gyda'r nod o fodloni'r galw a ragwelir, yn benodol o ran oncoleg glinigol a meddygol, nyrsys canser arbenigol, ffiseg feddygol, a radiograffwyr therapiwtig, ac rydym yn gweithio gyda'r GIG drwy ei brosesau cynllunio ac atebolrwydd i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Rwy'n disgwyl i wasanaethau canser gael eu cynllunio a'u darparu yn unol â safonau proffesiynol. Mewn cyfres o lwybrau delfrydol cenedlaethol, rydym wedi disgrifio'r hyn a ddylai ddigwydd pan fydd claf yn ymuno â llwybr canser. Dylai pobl sydd â chanser metastatig y fron gael eu cefnogi gan dîm amlbroffesiynol gyda mewnbwn nyrsio arbenigol fel y bo angen. Dylai pawb sydd â chanser gael asesiad holistaidd o'u hanghenion i sicrhau eu bod yn cael y cymorth y mae ei angen. Fodd bynnag, mater i'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau yw dyrannu'r gweithlu sydd ar gael iddynt yn ôl anghenion eu poblogaeth.

Nid rôl Llywodraeth Cymru yw pennu pa gyflyrau a ddylai elwa ar gymorth nyrsio arbenigol dynodedig. Rwy'n ymwybodol iawn y gall unrhyw ganser fetastaseiddio, ac nad yw mynediad at nyrsio arbenigol o dan yr amgylchiadau hynny'n fater sydd wedi ei gyfyngu i ganser y fron. Mae'n bwysig sicrhau tegwch wrth ddarparu gwasanaethau i bobl sydd â gwahanol ganserau, ac ni ellir gwneud ymrwymiadau ynghylch canser metastatig y fron ar draul darparu cymorth i bawb sy'n byw gyda chanser o unrhyw fath.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu cynllun gweithlu nyrsio cenedlaethol er mwyn sefydlu gweithlu nyrsio mwy cynaliadwy. Bydd y cynllun hwn yn ein galluogi i weithio mewn modd a dargedir wrth weithredu atebion ar gyfer y gweithlu mewn meysydd o flaenoriaeth ddynodedig. Un o elfennau craidd y gwaith datblygu hwn yw mapio a dadansoddi'r gweithlu nyrsio presennol. Bydd hyn yn gwella dealltwriaeth o ran sut mae'r gweithlu nyrsio yn cael ei ddyrannu ar hyn o bryd. Rwy'n edrych ymlaen at gael cynllun drafft ar ddechrau 2023, a hoffwn annog rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y prosesau ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn i'w sylwadau helpu i ddatblygu nyrsio arbenigol ar gyfer canser.

Rwyf hefyd yn cydnabod nad oes digon o ddata hawdd cael mynediad atynt, ar ofal canser metastatig, a bod y diffyg hwn yn rhan allweddol o'r mater gan y gellid defnyddio data o'r fath i wella sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu. Dyma un o'r rhesymau pam roeddwn i'n fodlon rhoi cyllid ychwanegol i'r rhaglen archwiliadau clinigol cenedlaethol, i gyflwyno archwiliad ofal canser y fron sylfaenol ac eilaidd. Bydd yr archwiliad hwn yn dechrau'r flwyddyn nesaf a bydd yn darparu dealltwriaeth o ran y gofal a dderbynnir gan bobl sydd â chanser y fron er mwyn helpu i wella gwasanaethau. Rwy'n deall y bydd yr Arolwg diweddaraf o Brofiadau Cleifion Canser hefyd yn darparu canlyniadau sydd hefyd yn ymwneud â chlefyd metastatig. Yn ogystal â hynny, bydd y system gwybodaeth canser newydd, sy'n cael ei chyflwyno yn lle System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru, yn gweithredu mewn modd mwy effeithlon er mwyn galluogi'r defnydd mwy effeithiol a rheolaidd o ddata am ganser metastatig.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth wrth i'ch Pwyllgor ystyried y ddeiseb.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services